**AC-03-99(min)**

# PWYLLGOR ARCHWILIO

## COFNODION

**Dyddiad:** 16 Rhagfyr 1999

**Amser:** 9.30am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Presennol**

**Aelodau**

| | |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Geraint Davies | Y Rhondda |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Alison Halford | Delyn |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Syr John Bourn | Archwiliwr Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| Phil Gray | Swyddog Cydymffurfio’r Cynulliad Cenedlaethol |

| | |
|---|---|
| Andrew George | Clerc |
| Julie Bragg | Dirprwy Glerc |

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dafydd Wigley.

**Eitem Agenda 1: Sesiwn Cymryd Tystiolaeth**

**Papur:** AC-03-99(p.1)

1.1 Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn cysylltiad â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar ran y Rheolwr a'r Archwiliwr Cyffredinol ar *Addysg Bellach yng Nghymru* a gyhoeddwyd ar 23 Gorffennaf 1999.

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Yr Athro John Andrews | Prif Weithredwr, Cynghorau Cyllido Addysg Bellach ac Uwch Cymru |
| Richard Hirst | Cyfarwyddwr Cyllid, Cynghorau Cyllido Addysg Bellach ac Uwch Cymru |
| Jon Shortridge | Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Derek Adams | Pennaeth Rhanbarth Addysg Bellach ac Uwch, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

1.2 Atodir trawsgript air am air o'r eitem hon fel atodiad i'r cofnodion hyn.

**Eitem Agenda 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**

**Papur:** AC-02-99(min)

2.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

2.2 Dywedodd y Cadeirydd fod yr ymweliad a drefnwyd â'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi ei ganslo ar fyr rybudd ddwy waith oherwydd busnes Seneddol brys. Roedd swyddogion yn ystyried dyddiadau posibl ar gyfer ei aildrefnu. Byddai Aelodau'r Pwyllgor yn cael eu hysbysu cyn gynted â phosibl.

2.3 Cadarnhaodd fod y trawsgript o'r dystiolaeth a roddwyd gan Cadw yng nghyfarfod olaf y Pwyllgor wedi ei gadarnhau yn ffeithiol gywir gan y tystion a'i fod ar gael ar y Rhyngrwyd. Nododd hefyd fod y Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cynnig darparu brîff anffurfiol ar ddadansoddi cyfrifon i Aelodau'r

Pwyllgor wrth baratoi ar gyfer ystyried adroddiadau i’w harchwilio gan y Pwyllgor yn y dyfodol.

2.4 Daeth y cyfarfod i ben am 12.25